

11 Rhagfyr 2012

Cyfrifiad 2011: Yr Ail Ddatganiad o Ddata i Gymru

Mae'r ail brif ddatganiad canlyniadau Cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru a Lloegr yn cael ei gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar 11 Rhagfyr 2012.

Maent hefyd wedi rhyddhau bwletin ystadegol ar wahân i Gymru. Mae hyn yn cyflwyno canfyddiadau allweddol o'r holl dablau Ystadegau Allweddol a naw tabl o Ystadegau Cyflym i lawr i'r lefel awdurdod lleol ac unedol yng Nghymru.

Bydd ystadegau'r DU yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi ar ôl y data perthnasol yn dod ar gael ar gyfer y pedair gwlad: Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

[Mae'r bwletin ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru](#)

Dyma'r canlyniadau allweddol ar gyfer Cymru:

- Mae'r poblogaeth fel arfer yn preswyllo yng Nghymru yn 3.1 miliwn yn 2011, cynnydd o bump y cant ers 2001. Mae bron yn un o bob pump (18 y cant, 563,000) o breswylwyr yn 65 oed neu drosodd.
- Fel yn 2001, yn 2011 roedd gan Gymru ganran uwch o drigolion gyda phroblem ieched tymor hir neu anabled, roedd ychydig o dan chwarter (23 y cant, 696,000), yn uwch nag unrhyw rhanbarth yn Lloegr.
- Yn 2011 roedd bron yn ddwy ran o dair (66 y cant, 2.0 miliwn) o drigolion Cymru yn mynegi eu hunaniaeth genedlaethol fel Cymry. O'r rhain, adroddodd 218,000 eu bod yn ystyried eu hunain fel Brydeinwyr.
- Roedd y poblogaeth fel arfer yn preswyllo yng Nghymru yn 96 y cant (2.9 miliwn) 'Gwyn' yn 2011, yn canran uwch nag unrhyw un o ranbarthau Lloegr.
- Datganodd pum deg wyth y cant (1.8 miliwn) o drigolion Cymru bod Cristnogol fel eu crefydd yn 2011, gostyngiad o 14 pwynt canran ers 2001, a gostyngiad mwy nag unrhyw un o ranbarthau Lloegr. Nododd bron yn un rhan o dair (32 y cant, 983,000) o'r boblogaeth yng Nghymru fod ni ganddynt unrhyw greffydd yn 2011, yn fwy nag unrhyw un o ranbarthau Lloegr.
- Yn 2011 cafodd pump y cant (168,000) o bobl yng Nghymru eu geni y tu allan i'r DU, cynnydd o ddau bwynt canran ers 2001 (tri y cant, 92,000).
- Gostyngodd cyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg o 20.8 y cant yn 2001 i 19.0 y cant yn 2011.
- Yn 2011, roedd cyfran uwch o gartrefi yng Nghymru (67 y cant, 879,000) yn berchen ar eu llety nag yn Lloegr (63 y cant, 14.0 miliwn).
- Cynyddodd nifer y ceir a faniau sydd ar gael i aelwydydd yng Nghymru o 1.3 i 1.6 miliwn rhwng 2001 a 2011. Yn 2001 roedd ar gyfartaledd 11 o geir am bob 10 aelwyd tra yn 2011 roedd 12 o geir am bob 10 aelwyd.
- Adroddodd bron pob aelwyd yng Nghymru bod ganddynt gwres canolog yn 2011 (98 y cant, 1.3 miliwn). Mae hyn yn gynydd o chwe phwynt canran ers 2001 (92 y cant, 1.1 miliwn).
- Roedd mwy o bobl (12 y cant, 370,000) yng Nghymru yn darparu gofal nag unrhyw ranbarth Lloegr yn 2011. Roedd gan Gymru ganran uwch o bobl sy'n darparu gofal am 20 i 49 awr, a 50 awr neu fwy yn 2011, nag unrhyw rhanbarth yn Lloegr, sydd yn dau y cant (54,000) a thri y cant (104,000) yn y drefn honno.
- Adroddodd un o bob pedwar o'r boblogaeth sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru sy'n 16 oed a throsodd (26 y cant, 651,000) fod ni ganddynt unrhyw gymwysterau cydnabyddedig yn 2011. Roedd y categori cymwysterau yn ail fwyaf yng Nghymru yn 2011 yn Lefel 4 neu uwch e.e. gradd Baglor neu'n uwch (24 y cant, 614,000).

Hefyd, bydd nifer o dablau cryno ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru yn cael ei gyhoeddi ar [StatsCymru](#) ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Mae dadansoddiadau mwy manwl o amcangyfrifon y cyfrifiad ar gael ar gyfer rhai pynciau trwy "straeon byr" ONS, sydd yn cyflwyno dadansoddiadau o fudiad rhyngwladol, ethnigrwydd a chrefydd. Mae yna hefyd adroddiad ar sut yr ystadegau'r farchnad lafur yn wahanol â'r rhai a amcangyfrifwyd gan yr Arolwg o'r Llafurlu ar lefel yr awdurdod cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bwletin ar wahân ar yr Iaith Gymraeg heddiw a bydd yn datgan bwletin ar ethnigrwydd, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd ar 17 Rhagfyr 2012.

Cynhaliwyd y Cyfrifiad ar Dydd Sul, 27 Mawrth 2011. Casglwyd gwybodaeth am bobl fel arfer yn preswyllo yng Nghymru a Lloegr ac mae hyn yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am y boblogaeth ac aelwydydd. Mae'n darparu gwybodaeth fanwl am y boblogaeth yn gyffredinol ac ar gyfer ardaloedd daearyddol bach a phoblogaethau bach.

Bydd datganiadau pellach o ddata'r Cyfrifiad dros y 18 mis nesaf; mae gwybodaeth ar gael ar-lein : [2011 Census prospectus](#).

Cyswllt

Llinell Ymholiadau Cyffredinol

Tel: 029 2082 3332

E-bost: stats.popcensus@wales.gsi.gov.uk